Joint review

Cydadolygiad

Hydref 2008

Cydadolygiad o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd

Crynodeb

AGGCC CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi ynghylch y rhaglen gydadolygu yng Nghymru ar gael ar y wefan: **www.joint-reviews.gov.uk** neu gan:

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 01443 848483
Ebost: **jointreview@wales.gsi.gov.uk**

ISBN: 978 0 7504 4872 7
CMK-22-11-033
© Hawlfraint y Goron Hydref 2008
D2800809

Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno'r adroddiad hwn ar gydadolygiad a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r adolygiad yn mynd ati i ateb dau gwestiwn allweddol:

- Pa mor dda yw'r gwasanaethau cymdeithasol a dderbynnir gan bobl yn yr ardal?
- Pa mor dda yw sefyllfa'r Cyngor i gynnal a gwella gwasanaethau?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r Tîm Adolygu, yn seiliedig ar ddadansoddiad trylwyr o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad. Ein gobaith yw y bydd yr adroddiad yn:

- rhoi gwybod i'r cyhoedd pa mor dda y mae pobl yn cael eu gwasanaethu;
- cynorthwyo'r gwasanaethau hyn i wella;
- diogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr; a
- sicrhau mwy o werth am arian o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol.

Cynhelir cydadolygiadau yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gynnal adolygiadau ar y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau o ran gwasanaethau cymdeithasol. Caiff y dasg o gynnal adolygiadau ei dirprwyo i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac mae Adran 41 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn galluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyfranogi.

Cynhaliwyd y Cydadolygiad o'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghyngor Gwynedd gan dîm a oedd yn cynnwys Sue Roberts, John Llewellyn Thomas, Val Connors, Mike Palmer, Rob Gifford, Helen Keatley, Colin McKay a Jill Lewis ynghyd â Gwyneth Thomas ac Alice Jones fel aseswyr lleyg. Cynhaliwyd gwaith ar safle'r Cyngor rhwng mis Ebrill 2007 a mis Gorffennaf 2007. Rhoddwyd cyflwyniad o ganfyddiadau'r adolygiad hwn i aelodau etholedig y Cyngor ym mis Hydref 2007.

Wrth gynnal yr Adolygiad dibynnwyd yn drwm ar gefnogaeth y Cyngor a rhanddeiliaid eraill. Cydweithiodd llawer o unigolion a grwpiau wrth gynllunio a chefnogi'r broses adolygu. Hoffai Tîm y Cydadolygiad ddiolch i bawb a gyfrannodd trwy rannu eu profiadau a'u sylwadau.

Ceir hefyd adroddiad llawn sy'n amlinellu asesiad y Tim Adolygu o'r Cyngor mewn mwy o fanylder. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r dystiolaeth bwysicaf a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad, gan nodi cryfderau ac arfer da yn ogystal â meysydd i'w datblygu.

Gofynnwyd i'r Cyngor gynhyrchu cynllun gweithredu fel ymateb i'r adroddiad hwn. Bydd AGGCC a Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud mwy o waith i werthuso'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r camau hyn a'r canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Mae'r adroddiad llawn a'r crynodeb hwn ar gael ar wefan y Cydadolygiad.

Rob Pickford
Prif Arolygydd

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Casgliadau Cyffredinol

Mae'r bennod hon yn crynhoi dyfarniad cyffredinol y tîm cyd-adolygu o'r Cyngor. Mae'n amlygu cryfderau allweddol y Cyngor ac yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu.

1.1 Crynodeb

Dyfarnwyd bod gan y Cyngor wasanaethau anghyson, a'i fod mewn sefyllfa wael i gynnal gwasanaethau a'u gwella ymhellach (Arddangosyn 1).

Arddangosyn 1: Sefyllfa Gwynedd ym matrics perfformiad y cydadolygiad



Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw eto'n darparu gwasanaethau sy'n gyson dda. Mae'r rhan fwyaf o bobl yng Ngwynedd yn derbyn cymorth sy'n ddiogel a gofalgar, ond mae nifer sylweddol nad ydynt yn derbyn gwasanaethau sy'n canolbwyntio digon ar eu galluogi i reoli eu bywydau a bod mor annibynnol â phosib. Mae rhai pobl yn derbyn cymorth sy'n eu galluogi i fyw bywydau annibynnol ond nid yw cymorth o'r fath ar gael yn gyson i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth sydd ag anghenion sylweddol. Mae bylchau sylweddol yn parhau i fodoli yn y gwasanaethau ynghyd â phroblemau o ran sicrhau hyblygrwydd, dewis a darpariaeth gyson yn ddaearyddol. Mewn nifer o feysydd, ni allai'r Cyngor ddangos ei fod yn symud i'r cyfeiriad cywir i fynd i'r afael â'r diffygion hyn.

Ers y Cydadolygiad diwethaf yn 2001, bu newidiadau sylweddol i strwythurau corfforaethol a gwleidyddol y Cyngor. Mae'r gwaith ailstrwythuro wedi ailgyfeirio ymdrechion y rheolwyr oddi wrth wella gwasanaethau ac mae hyn wedi arwain at ddiffyg cynnydd. Ni weithredwyd llawer o'r bwriadau da a leisiwyd yn yr ymateb i'r Cydadolygiad diwethaf a chollwyd cyfleoedd i wella. Nid yw cyflymder y cynnydd wedi bod cystal â'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae cynghorwyr ac aelodau staff mewn swyddi allweddol yn benderfynol o gyflawni graddfa'r newidiadau sydd eu hangen bellach er mwyn i Wynedd gau'r bwlch hwn. Os yw pobl Gwynedd am dderbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, yna mae angen troi'r agwedd hon yn ganlyniadau pendant yn gyflym.

Mae angen i gynghorwyr a swyddogion corfforaethol symud ymlaen o ran gwaith datblygu strategol a gweithredu cynlluniau. Mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys aelodau staff rheng flaen a defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr), mae'n rhaid i reolwyr y gwasanaethau cymdeithasol ddechrau darparu gwelliant parhaus. Mae angen canlyniadau gwell o'r adnoddau a fuddsoddwyd yn y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau gwelliant yn yr amrywiaeth o wasanaethau sy'n cynorthwyo ac yn hybu annibyniaeth. Mae angen i'r Cyngor ddangos bellach y gall fynd i'r afael ag agenda gynyddol heriol a datblygu ymateb effeithiol i'r pryderon a godwyd yn ystod y Cydadolygiad.

1.2 Canfyddiadau allweddol

Nod yr Adolygiad oedd ateb dau gwestiwn allweddol:

Pa mor dda yw'r gwasanaethau? (Arddangosyn 2)

Pa mor dda yw sefyllfa'r Cyngor i gynnal a gwella gwasanaethau? (Arddangosyn 3)

Arddangosyn 2: Pa mor dda yw'r gwasanaethau?

Dyfarniadau'r Tîm Adolygu

Dyfarniadau'r Tîm	Gwael	Anghyson	Da ar y cyfan	Rhagorol
Mynediad at wasanaethau		•		
Asesu		•		
Rheoli ac adolygu gofal		•		
Ystod y gwasanaethau a ddarperir		•		
Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir		•		
Trefniadau i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed		•		
Llwyddiant o ran hybu annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol		•		

Cryfderau	Meysydd i'w datblygu
• Trefniadau da ar gyfer ymatebion cychwynnol i ymholiadau mewn llawer o wasanaethau • Pobl yn gyffredinol fodlon ar y gwasanaethau y maent yn eu derbyn • Amrywiaeth gynyddol o wasanaethau i blant yn cael eu darparu mewn partneriaeth • Cynorthwyo rhai pobl ag anghenion cymhleth yn y gymuned • Gwaith y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwella ym maes amddiffyn plant	• Darparu'r holl brosesau rheoli ac asesu gofal i oedolion a phlant yn gyson • Ehangu'r dewisiadau gwasanaeth er mwyn mynd i'r afael â bylchau allweddol a materion yn ymwneud â darpariaeth ddaearyddol, hyblygrwydd a dewis ar draws pob maes gwasanaeth • Gweithredu canllawiau cenedlaethol ar waith Asesu Unedig ar gyfer oedolion • Gwella'r dull o asesu a rheoli risg

Cryfderau	Meysydd i'w datblygu
• Gwaith cadarnhaol gyda phartneriaid i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed • Perfformiad da o ran sicrhau bod oedolion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty'n brydlon	• Datblygu a gwella prosesau amddiffyn oedolion o ran sgiliau, prosesau a gweithdrefnau • Sicrhau bod anghenion plant sy'n derbyn gofal yn cael eu diwallu • Gwella'r canlyniadau a'r gwasanaethau sydd ar gael i'r holl Blant mewn Angen ac i bobl ifanc sy'n symud o'r gwasanaethau i blant i'r gwasanaethau i oedolion • Newid llwyr o ran patrwm gwasanaethau mewn meysydd megis anabledd dysgu a gwasanaethau i bobl hŷn • Defnyddio systemau sicrhau ansawdd systematig ar draws yr holl wasanaethau • Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn gwaith sicrhau ansawdd a chynllunio gwasanaethau • Ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i ofalwyr

Gwasanaethau i Oedolion

Ni chanfu'r Tîm Adolygu amrywiaeth briodol o wasanaethau modern sy'n galluogi pobl sy'n agored i niwed i fyw bywydau annibynnol a chyflawn.

Ceir mynediad at y gwasanaethau i oedolion trwy ffyrdd amrywiol ac mae nifer o systemau dyletswydd ar waith ledled y sir sy'n defnyddio adnoddau rheoli gofal sylweddol. Nid yw'r systemau rheoli gwybodaeth yn addas ar gyfer eu diben eto ac o ganlyniad, nid yw'r data gofynnol mwyaf sylfaenol ar gael i fesur perfformiad.

Er bod rheolwyr gofal yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth a werthfawrogir gan lawer o ddefnyddwyr gwasanaeth, mae diffygion mawr yn parhau i fodoli:

- nid yw'r Cyngor wedi sefydlu'r broses Asesu Unedig eto, ac eithrio fel cynllun peilot mewn un tîm ardal, er gwaethaf canllawiau Adran 7 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu'r broses hon ar gyfer pobl hŷn o fis Ebrill 2002 ymlaen;
- ni cheir fframwaith sicrhau ansawdd y cytunwyd arno ac mae'r diffyg safonau arfer wedi arwain at anghysondeb ar draws y timau oedolion ac arfer anfoddhaol mewn nifer sylweddol o achosion;

- ni cheir un dull o fynd i'r afael â risg - nid yw asesiadau'n canolbwyntio ar ganlyniadau'n gyson, nid yw cynlluniau gofal yn darparu manylion digonol i sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n briodol, ac mae ôl-groniad o adolygiadau yn bodoli yn y gwasanaethau i bobl hŷn; ac
- nid oes cymorth gweinyddol digonol ar gael i dimau, ac ni ddatblygwyd atebion i broblemau, megis darparu gliniaduron i reolwyr gofal sy'n gyfrifol am ardal ddaearyddol fawr er mwyn iddynt gwblhau eu gwaith papur.

Canfu'r Tîm Adolygu fod trefniadau partneriaeth ar gyfer Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed wedi'u hen sefydlu. Fodd bynnag, er bod gweithdrefnau i amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin wedi'u sefydlu ac yn cael eu defnyddio bellach, roedd ansawdd yr arfer a welwyd ar y rheng flaen yn amrywiol. Er enghraifft:

- dim ond yn ddiweddar y penodwyd unigolyn i'r swydd cydgysylltydd amddiffyn oedolion, a Gwynedd oedd yr Awdurdod olaf yng Nghymru i benodi cydgysylltydd o'r fath. Nid oedd gan y Cyngor arweinydd rheoli penodol ar gyfer y maes hwn chwaith;
- mae'r Cyngor wedi bod yn araf o ran gweithredu agweddau ar weithdrefnau diwygiedig Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed Gogledd Cymru, megis cadw cofnodion a defnyddio dogfennau priodol;
- roedd ansawdd y gwaith a welwyd yn y ffeiliau achos yn anghyson;
- nid yw'r gallu i ymateb i ofynion monitro cenedlaethol yn foddhaol eto; ac
- nid oedd holl aelodau'r staff yn hyderus ynglŷn â'u harfer o ran Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed.

Dim ond yn araf y mae cydbwysedd y gwasanaethau'n symud oddi wrth ofal preswyl tuag at ddewisiadau cymunedol a chynhwysol. Mae'r gwasanaethau y mae pobl yn eu derbyn yn gyffredinol ddiogel a gofalgar, ac mae rhai pobl yn derbyn gwasanaethau sy'n eu galluogi i fwynhau mwy o annibyniaeth. Fodd bynnag, mae pryderon yn bodoli am gyflymder y newid. Gwelodd adolygwyr na wnaed digon o gynnydd o ran ailgynllunio gwasanaethau i fodloni'r agenda atal, adsefydlu a hybu annibyniaeth fodern. Er y bu rhai gwelliannau cadarnhaol, mae bylchau mawr yn parhau i fodoli ac mae'r Cyngor yn dal i weithio i ehangu'r gwasanaethau sydd ar gael ledled y sir. Mae cynnydd wedi bod yn araf ac mae angen gwneud mwy i sicrhau bod gwasanaethau megis ail-alluogi, ymateb i argyfwng a llety â chymorth ar gael yn hwylus. Nodwyd llawer o'r peryglon a'r problemau hyn gan y Cyngor, dros rai blynyddoedd mewn rhai achosion, ond ni aethpwyd i'r afael â hwy'n gadarn.

Mae angen brys, felly, am newid mwy sylweddol i batrymau gwasanaethau a darpariaeth o ran y gwasanaethau i oedolion. Dylai hyn gynnwys:

- rhesymoli'r ddarpariaeth uniongyrchol ac allanol o wasanaethau, i gynorthwyo wrth sicrhau bod sgiliau ac adnoddau staff yn cael eu targedu at alluogi a darparu cymorth i bobl ag anghenion cymhleth;
- canolbwyntio ar leihau'r ddibyniaeth ar ofal preswyl, trwy weithredu'n effeithiol y cynlluniau ar gyfer ailgynllunio gofal preswyl - Adeiladu ar gyfer y Dyfodol - ac ail-fuddsoddi mewn dewisiadau cymunedol;
- gwella'r ddarpariaeth o ofal seibiant i bob grŵp cleientiaid;

- mewn partneriaeth, darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau i gynorthwyo pobl â dementia a'u gofalwyr. Mae prinder gofal dydd arbenigol, lleoliadau gofal preswyl a nyrsio a chymorth cymunedol arbenigol ar hyn o bryd;
- sicrhau ymateb cyson drwy'r sir gan Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol a mynd i'r afael â bylchau a nodwyd mewn gwasanaethau iechyd meddwl;
- datblygu a gweithredu strategaethau ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu. Mae aelodau staff a theuluoedd yn pryderu am y diffyg cynnydd, y dywedwyd iddo fod wedi digwydd oherwydd problemau staffio;
- datblygu dull strategol o ddarparu gwasanaethau i bobl ag anghenion synhwyraidd a chorfforol. Er bod y broses o ddatblygu timau ar wahân wedi gwella'r model asesu i bobl anabl, mae'r diffyg adnoddau ategol wedi arwain yn aml at ddewisiadau gwasanaeth gwael i'r grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaeth; a
- chryfhau'r trefniadau gyda phartneriaid i gynorthwyo wrth ddarparu'r agenda hon.

Gwasanaethau i Blant

Ers y cydadolygiad diwethaf bu'r gwasanaethau i blant yn destun craffu allanol a chafwyd pryderon am berfformiad. O ganlyniad, canolbwyntiodd y Cyngor ar wella agweddau ar arfer a gwasanaethau. Canfu'r Tîm Adolygu dystiolaeth o rywfaint o gynnydd ar adeg yr Adolygiad. Roedd y system ar gyfer derbyn atgyfeiriadau wedi gwella ac yn gyffredinol roedd plant a theuluoedd yn derbyn ymateb gwell. Ar y pwynt atgyfeirio, roedd y prosesau ar gyfer sgrinio, blaenoriaethu a chytuno ar gymhwysedd yn gadarn yn gyffredinol, er nad oeddent yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig bob amser. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliannau hyn wedi'u seilio eto ar waith asesu a chynllunio gofal sy'n gyson dda, ac roedd gan yr Adolygwyr lai o hyder yng ngallu'r rheolwyr i ddangos cydymffurfiad â chanllawiau a safonau yn y meysydd hyn. Er enghraifft:

- mae'r gwaith dadansoddi mewn asesiadau o ansawdd gwael weithiau ac yn anghyflawn yn aml;
- nid yw arfer yn cydymffurfio â chanllawiau bob amser;
- mae'r broses o reoli ffeiliau achos yn wael, ac yn aml mae gwybodaeth bwysig yn cael ei chofnodi ar daflenni cyswllt a/neu asesiadau'n cael eu diweddaru mewn nodiadau cynadleddau achos; ac
- mae arfer anghyson o ran asesu a rheoli risg.

Roedd y rhesymau am y diffygion hyn yn amrywio o dîm i dîm, ond canfu'r adolygwyr fod diffyg systemau effeithiol yn gyffredinol i gefnogi arfer o ddydd i ddydd. Roedd y rhan fwyaf o aelodau'r staff yn gweithio dan bwysau sylweddol. Gwaethygwyd hyn gan ddiffyg profiad cymharol llawer o weithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr.

Nid oedd unrhyw amheuaeth ynglŷn ag ymroddiad aelodau'r staff a'u dymuniad i sicrhau bod pobl yn derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, ond nid oedd systemau effeithiol ar gael i'w cefnogi yn eu gwaith. Er enghraifft, nid oedd trefniadau rheoli perfformiad yn darparu gwybodaeth gadarn ar draws y system ac nid oedd prosesau sicrhau ansawdd wedi'u datblygu'n ddigonol yn y rhan fwyaf o dimau.

Ar adeg yr Adolygiad, roedd y Cyngor wedi sefydlu trefniadau gwell ar gyfer diogelu plant yng Ngwynedd. Fodd bynnag, nid yw'r arfer yn gyson ar draws pob agwedd ar y broses amddiffyn plant o hyd. Gwelodd y Tîm Adolygu gynnydd cadarnhaol mewn rhai meysydd:

- mae gweithwyr cymdeithasol yn dilyn gweithdrefnau amddiffyn plant yn fwy cyson;
- ceir mwy o waith monitro a mwy o waith sicrhau ansawdd effeithiol sy'n canolbwyntio ar wella perfformiad; ac
- mae trefniadau aml-asiantaeth wedi'u sefydlu bellach ac yn arwain at waith partneriaeth mwy effeithiol.

Serch hynny, mae angen parhau i wella arfer amddiffyn plant yn sylweddol er mwyn sicrhau bod:

- asesiadau craidd yn cael eu cwblhau pan fydd angen, a bod eu hansawdd a'u prydlondeb yn gwella;
- gwaith asesu a rheoli risg yn cael ei gryfhau er mwyn sicrhau dull cyson; a
- bod gwelliant o ran safonau perfformiad cynadleddau achos ac effeithiolrwydd grwpiau craidd.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn ystod gynyddol o wasanaethau i blant. Datblygwyd llawer o'r rhain mewn partneriaeth â sefydliadau eraill megis Barnardos ac NCH. Fodd bynnag, mae diffyg gwasanaethau mewn rhai rhannau o'r sir o hyd. O ganlyniad, mae problemau mawr a bylchau a gydnabuwyd o ran darparu rhai gwasanaethau allweddol i blant, gan gynnwys:

- **Gwasanaethau cymorth i deuluoedd -** er y datblygwyd rhywfaint ar y gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd diweddar, ni chyd-gysylltwyd hyn ac mae diffyg cyfeiriad strategol. Cynhyrchwyd strategaeth atal drosfwaol ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn ddiweddar.
- **Gwasanaethau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal -** bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a leolwyd y tu allan i'r sir, ond nid oes strategaeth leoli ar gael ar hyn o bryd i sicrhau y darperir y gofal gorau a mwyaf priodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae nifer cymharol uchel o leoliadau plant sy'n derbyn gofal yng Ngwynedd yn methu.

Gwasanaethau i blant anabl a'r rhai sy'n ymddwyn yn heriol neu sydd ag anghenion arbenigol - er bod tystiolaeth o waith partneriaeth a rhywfaint o ddatblygiadau i'r gwasanaeth, mae angen gweithredu'r newidiadau hyn yn gyflymach, yn enwedig o ran gofal seibiant. **Mae penderfyniad y Cyngor i integreiddio'r Gwasanaethau i Blant â'r Gyfarwyddiaeth Ddatblygu yn cyflwyno cyfleoedd a pheryglon.** Wrth ddatblygu'r broses hon, bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod:

- y broses ad-drefnu'n cynnig gwerth ychwanegol sylweddol i'r plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed;
- yr agenda gofal cymdeithasol proffesiynol yn y gwasanaethau i blant yn cael ei diogelu; a
- bod agenda barhaus ar gyfer gwella'r gwasanaeth ymhellach sy'n dangos manteision ychwanegol integreiddio.

Arddangosyn 3: Pa mor dda yw sefyllfa'r Cyngor i gynnal a gwella gwasanaethau?

Dyfarniadau'r Tîm Adolygu

	Sefyllfa wael	Sefyllfa ansicr	Sefyllfa dda	Sefyllfa gref
Adnoddau		•		
Cynllunio a phartneriaethau		•		
Comisiynu a chontractio	•			
Gweithlu			•	
Rheoli Perfformiad	•			
Arweinyddiaeth a diwylliant	•			
Cefnogaeth a chraffu corfforaethol a gwleidyddol	•			

Cryfderau	Meysydd i'w datblygu
• Gwario mwy ar wasanaethau cymdeithasol • Aelodau staff gweithgar sy'n awyddus i ddarparu gwasanaethau o ansawdd • Tystiolaeth o waith da ar y cyd a chynllunio gwell mewn rhai meysydd gwasanaeth • Rhai newidiadau cadarnhaol yn y gwasanaethau i blant gyda gwell trefniadau comisiynu • Cyflwyno dull corfforaethol o reoli prosiectau'n ddiweddar • Ymwybyddiaeth wleidyddol gynyddol o faterion yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol	• Sicrhau seilwaith rheoli sy'n sbarduno newidiadau ac yn sicrhau atebolrwydd • Gwella ansawdd yr arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod gweledigaeth a chyfeiriad eglur yn cael eu datblygu a'u cyfathrebu yn y gyfarwyddiaeth • Gwella gallu'r Cyngor i ailffurfio patrymau darparu gwasanaethau a sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn sgil mwy o fuddsoddi • Datblygu fframwaith rheoli perfformiad effeithiol fel bod y cyngor yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod y diwylliant rheoli perfformiad yn cael ei ymsefydlu ar bob lefel

Cryfderau	Meysydd i'w datblygu
	• Datblygu cynlluniau ariannol tymor canolig i fynd i'r afael ag achosion o orwario a sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau • Darparu arweiniad strategol ac eglurder ynglŷn â'r cyfrifoldeb am gomisiynu ar y lefel uchaf • Integreiddio gwaith cynllunio strategol ac ariannol â data rheoli perfformiad a gweithgarwch • Sicrhau bod grwpiau cynllunio'n cael eu hymrymuso i gyflawni newid • Gwella'r gwaith rhwng gwahanol gyrff corfforaethol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer pobl Gwynedd

Dyfarnwyd bod y Cyngor mewn sefyllfa wael i gynnal a gwella gwasanaethau ymhellach

Dyfernir bod Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa waeth i gynnal a gwella gwasanaethau nag yr oedd ar adeg y cydadolygiad diwethaf. Bu diffyg cynnydd er gwaethaf gwariant ychwanegol sylweddol. Mae gwaith ailstrwythuro blaenorol a chyfredol wedi ailgyfeirio ymdrechion y rheolwyr oddi wrth y tasgau sydd dan sylw ac mae hyn wedi arwain at ddiffyg cynnydd. O ganlyniad, nid arweiniodd llawer o'r bwriadau da a leisiwyd fel ymateb i'r cydadolygiad diwethaf at gamau cadarnhaol.

Mae llawer mwy i'w wneud er mwyn sicrhau bod yr holl elfennau hanfodol sydd eu hangen i ffurfio a darparu gwasanaethau cymdeithasol wedi'u sefydlu'n gadarn.

- Mae angen sicrhau canolbwynt cryf ar ddatblygu amrywiaeth eang o ddewisiadau gwasanaeth modern sy'n darparu canlyniadau da i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Mae angen i arweinwyr gwleidyddol a chorfforaethol arwain, herio a chefnogi rheolwyr ar bob lefel o'r sefydliad.
- Mae angen gwella'r systemau sydd eu hangen i sbarduno cynnydd, megis y rhai ar gyfer cynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad, gan adrodd a chraffu ar gynnydd a chefnogi hyn yn rheolaidd.
- Mae angen hysbysu aelodau'r staff o'r angen am newid a chyfeiriad y newidiadau, gan fod angen iddynt hwy deimlo eu bod yn deall ac yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer Gwynedd yn y dyfodol.

Ffurfio gwasanaethau (defnyddio adnoddau; cynllunio a phartneriaethau; comisiynu a chontractio)

Mae cynnydd o ran datblygu amrywiaeth briodol o wasanaethau i ddiwallu anghenion agenda gofal cymdeithasol fodern wedi bod yn llawer rhy araf. Mae hyn yn arbennig o wir yn y gwasanaethau i oedolion ac nid yw llawer o'r newidiadau a gynlluniwyd yn dilyn y cydadolygiad diwethaf wedi'u gweithredu. Mae enghreifftiau'n cynnwys ailffurfio gofal preswyl ac adolygu ac ailffurfio'r ddarpariaeth o wasanaethau i bobl ag anabledd dysgu. Yn y gwasanaethau i blant, mae'r gwaith o ailffurfio'r ddarpariaeth breswyl wedi'i oedi.

Er y ceir rhai strategaethau corfforaethol lefel uchel sy'n cyflwyno darlun eglur o gyfeiriad yn y dyfodol, bu diffyg rheolaeth strategol yn y gwasanaethau cymdeithasol yn y Gyfarwyddiaeth Ofal i arwain, datblygu a chefnogi'r trefniadau cynllunio sy'n sbarduno newidiadau i wasanaethau yn briodol. Mae arwyddion yn y gwasanaethau i blant o gyfeiriad strategol gwell a strwythurau cynllunio mwy eglur, er ei bod yn rhy gynnar i asesu a fydd hyn yn cyflawni'r newidiadau sydd eu hangen yn ymarferol.

Yn gyffredinol, mae datblygiad gwasanaethau yn y gwasanaethau i blant wedi bod yn fwy seiliedig ar waith partneriaeth yn hytrach na strategaethau comisiynu pendant. Mae partneriaethau gweithredol yn dueddol o weithio'n dda i ddarparu canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaeth, ond nid yw'r trefniadau cynllunio

a chomisiynu eto'n sbarduno'r partneriaethau strategol i ddatblygu gweledigaeth strategol eglur na chyflawni'r weledigaeth honno.

Mae diffyg eglurder yn y gwasanaethau cymdeithasol ynglŷn â'r arweiniad strategol a'r cyfrifoldeb am gomisiynu. Mae'r dryswch hwn yn amlwg ymhlith sefydliadau partner hefyd. O ganlyniad i'r sefyllfa hon, mae strategaethau comisiynu allweddol nad ydynt wedi'u datblygu eto. Hefyd, nid yw'r rhai sydd wedi'u sefydlu yn gyflawn eto ac nid ydynt yn cynnwys llawer o'r elfennau sy'n angenrheidiol i sicrhau eu bod yn fwy na 'rhestrau dymuniadau' yn unig. Mae trefniadau monitro contractau ychydig yn well nag yr oeddent yn ystod y cydadolygiad diwethaf, ond maent yn parhau i fod yn annigonol i ddarparu gwasanaeth comisiynu cadarn.

Bu cynnydd sylweddol i'r gwariant ar y gwasanaethau cymdeithasol ers y cydadolygiad diwethaf. Mae'r lefelau gwario ar y gwasanaethau cymdeithasol wedi cynyddu o £37.8 miliwn yn 2004/05 i £45.9 miliwn yn 2006/07. Defnyddiwyd llawer o'r buddsoddiad ychwanegol i dalu am achosion o orwario, yn enwedig yn y gwasanaethau i blant. Er bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn gadarn yn gyffredinol, gyda lefelau da o gronfeydd wrth gefn corfforaethol, mae pwysau cynyddol ar y gyllideb ac mae angen arbed mwy na £12 miliwn yn ystod y tair blynedd nesaf.

Daeth y Tîm Adolygu i'r casgliad nad yw'r buddsoddiad diweddar wedi'i ddefnyddio i sicrhau'r effaith orau hyd yn hyn. Mae'r galw cynyddol am ofal cymdeithasol a disgwyliadau cynyddol ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau'n golygu ei bod yn hanfodol i'r Cyngor ganolbwyntio mwy ar wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen iddo sicrhau bod:

- holl aelodau'r staff yn fwy ymwybodol o faterion yn ymwneud â gwerth am arian;
- strategaethau comisiynu'n cael eu datblygu ar draws pob maes gwasanaeth a'u bod yn seiliedig ar wybodaeth ariannol; ac
- y gwneir defnydd mwy effeithiol o adolygiadau gwasanaeth er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol.

Darparu gwasanaethau cymdeithasol (gweithlu; rheoli perfformiad)

Mae'r awdurdod wedi gweithio i wella prosesau recriwtio a chadw staff, ond mae'r sefyllfa'n dal i fod yn fregus. Yn gyffredinol, canfu'r Tîm Adolygu:

- fod aelodau'r staff yn ymroddedig i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da, a'u bod yn gweithio'n galed i wneud hynny;
- bod agwedd gadarnhaol at hyfforddiant cyffredinol ac ar y cyfan, bod aelodau'r staff yn fodlon ar y rhaglen hyfforddi. Fodd bynnag, nid yw hyfforddiant wedi'i gynllunio'n strategol bob amser nac wedi'i ategu gan y system gwerthuso staff a ddefnyddiwyd yn anghyson;
- bod yr ymdrechion i recriwtio gweithwyr cymdeithasol, yn enwedig yn y gwasanaethau i blant, wedi bod yn effeithiol ac y rhoddwyd cefnogaeth i aelodau staff newydd. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n dal i fod yn fregus - roedd rhai aelodau staff yn teimlo dan bwysau ac roedd llwythi achosion mawr ac achosion hynod gymhleth ymhlith y materion a wynebwyd gan aelodau staff a oedd newydd gymhwyso;

- nid yw aelodau'r staff yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am newidiadau, ac er iddynt ganmol eu cyfarfodydd tîm, ni ystyriwyd bod rhwydweithiau gwybodaeth ac ymgynghori ar lefel uwch yn gweithio'n effeithiol; ac
- er bod partneriaeth gweithlu sefydledig ar waith, nid oedd yr holl bartneriaid yn teimlo eu bod yn rhan lawn ohoni.

Canfu'r adolygwyr fod gwendidau sylfaenol o ran mesur a herio perfformiad ar draws yr holl wasanaethau cymdeithasol. Gwnaed cynnydd gwell wrth gyflwyno systemau rheoli perfformiad yn y gwasanaethau i blant, ond yn gyffredinol, mae llawer o'r dulliau craidd sy'n ofynnol i reoli'r busnes yn effeithlon ac yn effeithiol heb eu sefydlu.

Un o'r prif resymau am y diffyg cynnydd sylweddol hwn yw bod y Cyngor wedi cael trafferth rheoli ei brosesau TGCh ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol trwy'r system DRAIG. Mae gwaith rheoli prosiect gwael wrth roi DRAIG ar waith wedi arwain at wybodaeth reoli annibynadwy sydd o ansawdd gwael. Mae canlyniadau hyn yn ddifrifol iawn gan eu bod yn golygu:

- nad yw'r Cyngor yn sicr ynglŷn â pha mor dda y mae aelodau'r staff yn gwneud eu gwaith;
- ei bod yn anodd newid patrymau gwasanaeth i ddiwallu anghenion; ac
- nid yw'r Cyngor yn gallu defnyddio'r ffyrdd mwyaf effeithlon ac effeithiol o nodi a darparu gwasanaethau.

Mae elfennau allweddol eraill ar reoli perfformiad yn wan hefyd. Nid yw prosesau sicrhau ansawdd wedi'u datblygu'n ddigonol ac mae'r ymdrech i wella perfformiad trwy gynllunio gwasanaethau, cynllunio busnes timau a gwerthuso aelodau staff unigol yn parhau i fod ar gam cynnar iawn.

Darparu cyfeiriad (arweinyddiaeth a diwylliant yn y gwasanaethau cymdeithasol; cefnogaeth a chraffu corfforaethol a gwleidyddol)

Yn ddiweddar, mae'r arweinyddiaeth wleidyddol wedi dangos dealltwriaeth well o'r materion a'r angen i wneud penderfyniadau anodd a sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod pobl Gwynedd yn derbyn gofal cymdeithasol sy'n addas ar gyfer ei ddiben. Ni fu hyn yn wir o reidrwydd yn ystod y cyfnod ers y cydadolygiad diwethaf. Mae hanes o amharodrwydd i wneud penderfyniadau gwleidyddol anodd a diffyg dealltwriaeth o flaenoriaethau allweddol y gwasanaethau cymdeithasol wedi gadael problemau mawr y mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy, ac nid yw cynnydd sylweddol o ran gwariant wedi sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol i wasanaethau. Ar yr un pryd, mae'r diffyg gweithredu corfforaethol i ymdrin ag achosion o berfformiad annigonol mewn rhai meysydd o'r gwasanaethau cymdeithasol wedi cyfrannu yn yr un modd at y methiant cyffredinol i sicrhau'r cynnydd yr oedd y Cyngor yn amcanu ato ar ôl y cydadolygiad diwethaf.

Mae'r rhwystrau mawr canlynol yn parhau i atal gwelliannau:

- diffyg cyfeiriad strategol ac atebolrwydd dryslyd - dywedodd rhai partneriaid fod 'y gwasanaethau cymdeithasol yn anhreiddiadwy' o ran gwneud penderfyniadau;
- mae'r strwythurau presennol yn cyflwyno heriau enfawr yn hytrach na chefnogi diwylliant o newid. Mae swyddogaeth Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, a gyflawnir gan Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, ar lefel trydedd haen y sefydliad. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ddeiliad y swydd sicrhau lefel briodol o ddylanwad;
- er bod rhai rheolwyr corfforaethol ac uwch reolwyr yn gallu mynegi gweledigaeth ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, ni rannwyd hyn yn eang â'r rheolwyr rheng flaen ac aelodau'r staff sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau;
- mae angen cryfhau cyfraniad y ganolfan gorfforaethol at gefnogi'r gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig i wella ansawdd cyffredinol y wybodaeth a ddarperir i Gynghorwyr er mwyn eu galluogi i gyflawni gwaith craffu effeithiol

Prif nodweddion y cynghorau hynny sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd uchel yw cryfder ac ansawdd arweinyddiaeth a chyfeiriad ar draws y sefydliad, a seilwaith rheoli sy'n sbarduno newid ac yn sicrhau atebolrwydd. Mae angen sefydlu a chysylltu'r holl elfennau hyn. Mae angen gweledigaeth a chyfeiriad eglur o frig y sefydliad sy'n cael eu trosi'n flaenoriaethau eglur ar gyfer aelodau'r staff a'u cyfathrebu'n dda ar draws y sefydliad, ynghyd â systemau cefnogi eglur i alluogi aelodau'r staff i wneud eu swyddi'n dda a sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen sydd o ansawdd da'n gyson yn cael eu darparu'n ymarferol. Roedd absenoldeb y nodweddion hyn yn amlwg yng Ngwynedd.

1.3 Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

Ar sail eu gwaith yng Ngwynedd, mae'r Tîm Adolygu wedi nodi bod y blaenoriaethau canlynol ar gyfer gweithredu yn arbennig o bwysig i sicrhau gwelliant pellach. Mae rhai agweddau ar y blaenoriaethau hyn eisoes wedi'u cynnwys mewn cynlluniau a wnaed gan y cyngor.

Dylid rhoi pwysigrwydd mawr i'r cynllun gweithredu y gofynnwyd i'r Cyngor ei gynhyrchu fel ymateb i'r Cydadolygiad a hefyd i'r ffordd y'i gweithredir. Bydd AGGCC a Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud rhagor o waith i werthuso'r cynnydd a wnaed wrth ddarparu'r camau a'r canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

1. Troi ymroddiad gwleidyddol cynyddol a fframweithiau corfforaethol newydd yn ganlyniadau effeithiol sy'n dangos bod newidiadau i'w gwasanaethau cymdeithasol yn seiliedig ar reoli corfforaethol ac arweinyddiaeth wleidyddol gadarn.

Dylai'r Cyngor:

- egluro ffurf gyffredinol y gwasanaethau a ddarperir a gwneud penderfyniadau pendant am y blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi a dadfuddsoddiad gan sefydlu amcanion penodol sy'n dynodi sut a phryd y bydd newidiadau'n cael eu gwneud;
- sicrhau bod trefniadau gweithredol a chraffu'n darparu cyfeiriad polisi cyson ac yn sefydlu cysylltiadau eglur rhwng amcanion strategol, blaenoriaethau ar gyfer gwella a ffactorau llwyddiant allweddol; a
- chryfhau'r trefniadau rheoli corfforaethol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol.

Dylai uwch reolwyr:

- gynorthwyo Cynghorwyr i nodi cyfeiriad eglur ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol trwy ddiffinio blaenoriaethau sy'n seiliedig ar ddadansoddiad cadarn o anghenion; a
- darparu adroddiadau i Gynghorwyr sydd o gymorth wrth sicrhau gwaith craffu effeithiol a phenderfyniadau a chynlluniau gweithredu cytbwys.

2. Datblygu arweinyddiaeth effeithiol yn y gwasanaethau cymdeithasol a gwella'r broses o reoli newid ar draws pob maes gwasanaeth.

Dylai'r Cyngor:

- fabwysiadu dull mwy cydlynol o gyflawni newid trwy nodi'n gyson y camau sydd i'w cymryd a chadarnhau pwy sy'n gyfrifol ac yn atebol am eu cyflwyno; a
- gwneud uwch swyddogion yn atebol am ddarparu'r rhaglen newid y cytunwyd arni a chraffu ar i ba raddau y cyflawnir yr amcanion.

Dylai uwch reolwyr:

- wella'r broses o reoli prosiectau unigol a gwneud defnydd effeithiol o waith cynllunio gwasanaeth a busnes;
- gwella'r gallu i arwain a gwneud penderfyniadau ar bob lefel; a
- datblygu diwylliant o gymhwysedd rheoli wedi'i ategu gan hyfforddiant sy'n dilysu hyn.

3. Sicrhau bod anghenion plant a theuluoedd sydd mewn angen neu sy'n derbyn gofal gan y cyngor yn cael eu diwallu.

Bydd hyn yn cynnwys rhaglen ar gyfer sicrhau safonau uchel o arfer gan aelodau staff sy'n gyfrifol am reoli achosion, a datblygu a gweithredu strategaethau comisiynu i sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael i ddiwallu anghenion a gwella'r defnydd o adnoddau.

Dylai'r Cyngor:

- sicrhau trwy weithio mewn partneriaeth fod cynnydd o ran amrywiaeth y gwasanaethau cymorth cymunedol sydd ar gael i blant a theuluoedd a dewisiadau gwell o leoliadau i blant sy'n derbyn gofal; a
- thrwy graffu'n effeithiol ar y gwaith o drosglwyddo'r gwasanaethau i blant i'r Gyfarwyddiaeth Ddatblygu, sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant yng Ngwynedd.

Dylai rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol:

- nodi cyfeiriad eglur i'r gwasanaethau i blant trwy ddatblygu a gweithredu strategaethau comisiynu effeithiol;
- sicrhau bod systemau'n cael eu gweithredu i sicrhau cydymffurfiad â gofynion statudol;
- gwella safonau arfer gwaith achos trwy sefydlu systemau mwy effeithiol ar gyfer sicrhau ansawdd - targedau eglur, adrodd rheolaidd, archwilio ffeiliau ac ati; a
- sicrhau profiad gwell ar gyfer pobl ifanc sy'n symud o'r gwasanaethau i blant i'r gwasanaethau i oedolion trwy weithredu canllawiau trosglwyddo mwy eglur.

Dylai ymarferwyr yn y gwasanaethau i blant:

- gyfrannu at wella ansawdd, cysondeb a phrydlondeb wrth asesu, rheoli ac adolygu gofal, a chymryd cyfrifoldeb am eu harfer proffesiynol eu hunain.

4. Pennu cyfeiriad eglur ar gyfer y gwasanaethau i oedolion sy'n gwella gwasanaethau i oedolion ac yn rhoi pwyslais ar annibyniaeth a dewis.

Bydd hyn yn cynnwys rhaglen newid strwythurol i sicrhau bod proses asesu unedig yn cael ei sefydlu; fframwaith gwell ar gyfer nodi a rheoli peryglon; rhaglen ar gyfer sicrhau arfer sy'n cyrraedd safonau uchel cyson gan aelodau staff sydd â chyfrifoldebau rheoli gofal, a sicrhau bod strategaethau comisiynu'n cael eu datblygu a'u gweithredu ar gyfer pob maes gwasanaeth sy'n cyfrannu at ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau cymunedol sy'n galluogi pobl i fyw bywydau annibynnol a chyflawn.

Dylai'r Cyngor:

- gytuno â phartneriaid ar sut i ymdrin â bylchau yn y gwasanaeth ac ailffurfio gwasanaethau i oedolion er mwyn darparu amrywiaeth gydgysylltiedig o wasanaethau i hybu galluogi ac annibyniaeth;
- sicrhau, trwy waith craffu effeithiol, y cynyddir ac y cynhelir cyflymder datblygiadau; ac
- annog ymateb corfforaethol a sector cyhoeddus cyfan i broblemau a achosir gan boblogaeth wasgaredig.

Dylai rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol:

- weithredu'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer Asesu Unedig ar draws y gwasanaethau i oedolion;

- gwella ansawdd prosesau amddiffyn oedolion trwy:
  - sicrhau bod prosesau'n cael eu gweithredu;
  - sicrhau bod sgiliau'n gwella trwy hyfforddiant mwy datblygedig i aelodau'r staff; a
  - sicrhau goruchwyliaeth gryfach gan reolwyr o'r broses o roi gweithdrefnau amddiffyn oedolion ar waith;
- cryfhau systemau a phrosesau i gefnogi prosesau rheoli risg cadarn;
- cefnogi ac arwain ymarferwyr i ddarparu cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio'n fwy cyson ar ganlyniadau;
- sicrhau bod safonau rheoli ac adolygu gofal yn cael eu bodloni; a
- gwella'r profiad i bobl ifanc sy'n symud o'r gwasanaethau i blant i'r gwasanaethau i oedolion trwy weithredu gweithdrefnau trosglwyddo mwy eglur.

Dylai ymarferwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion:

- gyfrannu at y gwaith o wella ansawdd cyffredinol eu harfer asesu a rheoli gofal eu hunain a, thrwy nodi eu hanghenion hyfforddiant, sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio systemau gwybodaeth pan fyddant wedi'u sefydlu.

5. Sicrhau y defnyddir adnoddau'n effeithiol trwy ddarparu neu brynu gwasanaethau sy'n ymatebol i anghenion ac sy'n cynnig gwerth am arian.

Mae gan y Cyngor yn gyffredinol sail ariannol gadarn a gwnaed buddsoddiad sylweddol yn y gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen iddo allu dangos bod adnoddau'n cael eu buddsoddi'n ddoeth gan ddangos y cysylltiad rhwng buddsoddiad ariannol, cynllunio gwasanaethau a sicrhau ansawdd.

Dylai'r Cyngor:

- gytuno ar raglen ariannu realistig mwy hirdymor, yn seiliedig ar gyfeiriad y cytunwyd arno, ar gyfer ffurf gwasanaethau yn y dyfodol a/neu egwyddorion gwerth am arian;
- mynd i'r afael â chostau uchel ac achosion o orwario'n fwy cadarn; a
- sicrhau bod rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol yn atebol am ddarparu gwasanaethau o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Dylai rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol:

- egluro prosesau dirprwyo'r gyllideb a sicrhau bod cyllidebau a mesurau rheoli costau eglur wedi'u sefydlu.

6. Rheoli perfformiad

Ar hyn o bryd, mae'r systemau sydd wedi'u sefydlu gan y gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau gwaith rheoli perfformiad effeithiol yn annigonol.

Dylai'r Cyngor:

- ddarparu cefnogaeth a gallu digonol o ran niferoedd staff er mwyn cynorthwyo wrth sefydlu a gweithredu systemau;
- sicrhau bod trefniadau craffu'n goruchwylio i ba raddau y mae blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'n cael eu cyflawni'n brydlon er mwyn sicrhau na cheir oedi yn y broses o ddarparu datblygiadau gwasanaeth allweddol; a
- gwerthuso gallu partneriaethau a fframweithiau cynllunio i sicrhau bod canlyniadau da a gwelliannau gwirioneddol yn cael eu darparu.

Dylai rheolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol:

- sicrhau bod prosiectau'n cael eu gweithredu'n unol ag amserlenni er mwyn darparu systemau TG sy'n diwallu anghenion y gwasanaethau cymdeithasol;
- datblygu dull systematig o sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad ar gael ac yn cael ei defnyddio ar draws y gwasanaethau i oedolion a'r gwasanaethau i blant;
- gwneud mwy o ddefnydd o dargedau er mwyn gwella i ba raddau y bodlonir safonau;
- nodi cyfeiriad eglur i'r gwasanaethau i oedolion trwy ddatblygu a gweithredu strategaethau comisiynu effeithiol;
- sicrhau bod cynlluniau ar bob lefel yn cysylltu â'r strategaethau comisiynu, a'u bod yn cysylltu amcanion gwasanaethau, timau ac unigolion yn agosach; a
- sicrhau bod dulliau effeithiol ar waith i ddarparu cefnogaeth a goruchwyliaeth i aelodau'r staff wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gweithredu'r system werthuso gorfforaethol a chynllunio busnes effeithiol.

Dylai ymarferwyr:

- weithio gyda rheolwyr i weithredu prosesau rheoli perfformiad a defnyddio rheoli perfformiad i gynorthwyo'r broses o wella eu perfformiad gwaith.

Copïau pellach

Mae copïau pellach o'r crynodeb hwn ar gael o:

AGGCC
4-5 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw
CF15 7QZ

Ffôn: 01443 848483

e-bost: jointreview@wales.gsi.gov.uk